# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 4**

PWERAU YMCHWILIO ACC

**PENNOD 4**

ARCHWILIO MANGREOEDD AC EIDDO ARALL

**[[F1]103A Pŵer pellach i archwilio mangre busnes: treth gwarediadau tirlenwi**

(1) Os oes gan ACC sail dros gredu bod yr amodau a ganlyn wedi eu bodloni, caiff ACC fynd i fangre busnes person ac archwilio—

(a) y fangre;

(b) asedau busnes sydd yn y fangre;

(c) dogfennau busnes perthnasol sydd yn y fangre (ond gweler adran 110).

(2) Yr amod cyntaf yw bod y person yn ymwneud neu wedi ymwneud mewn unrhyw rinwedd â gwarediad deunydd sy’n warediad trethadwy neu a allai fod yn warediad trethadwy.

(3) Yr ail amod yw bod yr archwiliad o’r fangre yn ofynnol at ddiben gwirio sefyllfa person arall o ran treth gwarediadau tirlenwi mewn cysylltiad â’r gwarediad o dan sylw.

(4) Mae is-adrannau (2) i (7) o adran 103 yn gymwys mewn cysylltiad ag archwiliad o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys mewn cysylltiad ag archwiliad o dan adran 103(1).

(5) Yn yr adran hon, ystyr “dogfennau busnes perthnasol” yw dogfennau busnes sy’n ymwneud â materion sy’n berthnasol i sefyllfa person o ran treth gwarediadau tirlenwi.

(6) Mae'r amgylchiadau pan fo ACC i'w drin fel pe bai ganddo sail dros gredu bod yr amod cyntaf wedi ei fodloni yn cynnwys (er enghraifft) amgylchiadau pan fo gan ACC sail dros gredu—

(a) bod y person, neu y bu'r person, yn ymwneud mewn unrhyw rinwedd â chael, â chludo neu â chyflenwi unrhyw ddeunydd at ddibenion sy'n gysylltiedig â gwarediad deunydd sy'n warediad trethadwy neu a allai fod yn warediad trethadwy, neu sy'n baratoad ar gyfer hynny, neu

(b) bod y person, neu y bu'r person, yn ymwneud mewn unrhyw rinwedd â gwneud unrhyw ddeunydd yn destun unrhyw weithdrefn neu ddefnydd, neu fel arall ag ymdrin ag unrhyw ddeunydd neu wneud trefniadau mewn perthynas ag ef, at ddibenion sy'n gysylltiedig â gwarediad deunydd sy'n warediad trethadwy neu a allai fod yn warediad trethadwy, neu sy'n baratoad ar gyfer hynny.

(7) Ni chaniateir cynnal archwiliad o fangre o dan yr adran hon os oes gan ACC y pŵer i gynnal yr archwiliad o dan adran 103B.

(8) Yn yr adran hon—

(a) mae cyfeiriadau at warediad deunydd yn cynnwys cyflawni gweithgarwch safle tirlenwi penodedig mewn perthynas â deunydd;

(b) mae i "deunydd", "gweithgarwch safle tirlenwi penodedig" a "gwarediad trethadwy" yr un ystyr ag a roddir iddynt yn DTGT.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Aau. 103A, 103B wedi eu mewnosod (25.1.2018) gan Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (anaw 3), **aau. 59(1)**, 97(2); O.S. 2018/35, ergl. 2(s)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 103A.